

DADANSODDI

Dychmygu telyn

Rhodri Davies

Amser darllen: 8 munud

FacebookTwitterGoogle+📧

28-07-2018



Llun gan Rhodri Davies

Treuliais y flwyddyn ddiwethaf yn adeiladu telyn rawn, sef telyn wedi ei llinynnu â blew hir, garw o gynffon ceffyl. Nid oes un wedi ei chwarae yng Nghymru ers dau gant o flynyddoedd. Clywais am fodolaeth y delyn hon am y tro cyntaf pan oeddwn yn yr ysgol, gan y gwneuthurwr telynau Robert Hadaway. Buom yn trafod y sain neilltuol sydd gan delynau cynnar, sain sy'n drawiadol o wahanol i delynau cyfoes y Gorllewin ac yn debycach i rai Affricanaidd. Ers y foment honno, rwyf wedi bod yn ymdrechu i glywed yr offeryn arbennig hwn yn fy nychymyg.

Mae'r delyn rawn yng Nghymru yn dyddio ymhellach yn ôl na'r delyn ddwyres, deires, lifer a phedal. Telyn glun ydoedd, yn ôl pob golwg, ac roedd ar ei hanterth yng nghyfnod Cyfreithiau Hywel Dda, yn y drydedd ganrif ar ddeg. Byddai iddi seinfwrdd wedi ei gerfio o ddarn sengl o bren a thannau o gynffon ceffyl gyda phinnau o asgwrn ceffyl i'w dal. Yn ddiweddarach, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, cafwyd telynau gyda seinfwrdd o groen ceffyl yn ogystal (telyn ledr); a rhwng y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r ddeunawfed ganrif chwaraewyd yr hyn a elwir yn delynau gwrrachod (*bray*) oherwydd y darnau bychain o bren, a ymdebygai i osgo cefn gwrrach, a fyddai'n cael eu gosod rhwng y tannau a'r seinfwrdd. Byddai elfennau o'r tri math hyn o delyn hefyd yn cael eu cyfuno, gan greu telynnau hybrid. Dywedwyd bod telynau gwrrachod yn 'brefu fel asyn' ond trafod mwy tyner sydd ar y delyn rawn.

Yng Nghyfreithiau Hywel Dda, yn y drydedd ganrif ar ddeg, y ceir y cyfeiriad ysgrifenedig cyntaf at y telynau hyn:

Pob penkerd telyn adily y gan y kerdoryon iueinc auo wrth kerd telyn a mynu ymadaw athelyn rawn a bot yn eirchat. y penkerd adily pedeir arugeint idaw.

(Pob pencerdd telyn a ddylai dderbyn pedair ceiniog ar hugain gan y cerddorion ieuainc a fynno ymrwrth â'r delyn rawn a mynnu bod yn gerddor teilwg a deisyf rhoddion.)

Rhwng y cyfnod hwn a'r unfed ganrif ar hugain mae'r delyn wedi datblygu ar sawl ffrf yn y Gorllewin. Ond yn ei hanfod, yr un strwythur sylfaenol sydd iddi: ffrâm driongl neu ffrâm ar siâp bwa a seinfwrdd i chwyddo sain y tannau. Yr hyn a newidiodd yw ansawdd sain y delyn, wrth gyfnwied tannau cynffon ceffyl am dannau gwt neu fetel ac wrth newid defnydd y seinfwrdd; dylanwaddodd hynny, yn ei dro, ar natur y gerddoriaeth a chwaraeid. Cofnodir rhywfaint o'r hanes hwn ym marddoniaeth lolo Goch yn y bedwaredd ganrif ar ddeg; ceir sôn am y delyn rawn gan Dafydd ap Gwilym hefyd. Yn 'Cywydd Moliant i'r Delyn Rawn a Dychan i'r Delyn Ledr' fe'i canmolir gan lolo Goch:

Nid oedd un tant, ffyniant ffydd,
O ddefaid meinw i Ddafydd;
Ni wnaeth, clau ddewiniaeth clêr,
Dafydd Broffwyd diofer
Un delyn, ddiddan angerdd,
Onid o rawn, gyfiawn gerdd.

Disgrifir yr ail delyn, y delyn ledr, yn ddilornus ganddo, fel un swmlyd:

Y mae cerdd seiniog i'n mysg,
Diflo anghyfan wangleidr,
Telynau, lliidiardau lledr.

Gorffennir y gerdd drwy ganmol eto y delyn rawn:

Ceisied pob prentis cyson
O fars tir Lloegr i Fôn
Telyn eirian i'w chanu
I rannu dysg o rawn du

Ond er gwaethaf ei hapêl, cael ei hanghofio fu ffawd y delyn hon; cafodd ei thrawsfeddiannu gan newidiadau technolegol a datblygiad y delyn ddwyres a theires. Offeryn brau ydoedd: roedd tamprwydd yn effeithio ar y croen a'r tannau fel ei gilydd. Ysgrifennodd Dafydd Llwyd Delynor gerdd yn gofyn am delyn oherwydd i'w hen delyn gael ei difetha gan y glaw: 'Dialedd yw gwlychu'r delyn,/ Gloyw (ni thwngl): glaw a wnaeth hyn!' (Bleddyn Owen Huws, 1998).



Llun gan Rhodri Davies

Wrth fynd ati i geisio llunio canllaw ymarferol ar gyfer adeiladu fy nhelyn rawn fy hun, cefais hyd i fwy o gliwiau am ei hadeiladwaith ym marddoniaeth y cyfnod: gwaith Wiliam Llŷn, Wiliam Cynwal, Dafydd ap Llywelyn ap Madog, Siôn Phylip, lolo Goch a Huw Machno yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ymwelais hefyd â'r Ystafell Hir yng Ngholeg y Drindod yn Nulyn i weld y delyn Brian Boru 29 tant. (Mae hon yn enghraifft o'r delyn sydd wedi'i gorchuddio â gemau a enwir ym marddoniaeth lolo Goch.) A phenderfynais fynd i amgueddfa offerynnau cerdd y Cité de la musique ym Mharis i ddarganfod mwy am y broses o wrio croen anifeiliaid ar delynau Affricanaidd. Bûm yn ffodus i allu manteisio ar wybodaeth arbenigwr y delyn gynnar, Robert Evans, sydd wedi ymchwilio'n ddwfn i bob agwedd ar gerddoriaeth gynnar Cymru ac sy'n defnyddio'r wybodaeth wrth berfformio gyda'r grŵp Bragod. Dysgais hefyd bod Wiliam Llŷn yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn cynnig disgrifiadau manwl o'r delyn rawn yn y 'Cowydd i Ofyn Telyn i Siankyn Gwyn'. Deuthum ar ei draws mewn traethawd estynedig ar waith Wiliam Llŷn gan Roy Stephens (1983):

Mae'n dair cornel, y delyn,
Mae'n un draw rhwng dwylaw dyn.
Union yw'r llorf, corf, a'r cil,
A gogam yw ei gwegil.
Gwniad pen, fel dolennau,
Ydyw ei chefn wedi'i chau.
O'i bron mae rhyw brennau mân
Trwy dyllau a'u traed allan.
Pob ebill fat gwimbill gwyn
A nerth y tannau wrthyn'.
Cyweirgorn, clo cyweirgerdd,
Arian a gaf ar un gerdd.

Daeth yn amlwg y byddai angen sgiliau a gwybodaeth fanwl i adeiladu'r delyn hon – tanerdy, hyd yn oed, i baratoi'r croen a gwybodaeth am y dull o gannu esgyrn y ceffyl a'u cerfio yn binnau telyn. Cyn mentro ymhellach, lluniais restr o'r prif nodweddion y penderfynais arnynt:

- Telyn glun
- 12 tant rhawn
- Croen ceffyl dros y corff
- Corff o bren derw, uchder o tua 67cm x lled 15cm ar y gwaelod; 11cm ar y brig x dyfnder 7cm
- Piler o bren derwen [72cm] a gwddf [37cm]
- Bar o dannau ffawydden y tu mewn i ddal y tannau, gan ychwanegu gwrrachod yn nes ymlaen
- Pinnau esgryn i diwnio ar y dechrau
- Pinnau telyn ceffyl i diwnio wedi i'r delyn setlo

Cefais gymorth dau grefftwr medrus: y gwneuthurwr telynau Alun Thomas a'r weithwraig ledr Gaynor Davies Howell. Roedd tad Alun, sef John Thomas, yn wneuthurwr telynau dylanwadol yn ei ddydd ac ymwelais â'i weithdy yng Nghastellblaidd sawl tro pan oeddwn yn blentyn i drwsio'r delyn Erard a brynododd fy hen dad-cu i fy nhad. Alun hefyd a adeiladodd fy nhelyn lifer. Benthycais ei delyn deires ar un adeg ac yn ddiweddarach adeiladodd ffrâm ar gyfer gosod uchelseinydd ar waelod y delyn lifer i mi. Mae gweithdy Alun bellach yn Abergwaun. Taith fer oedd y cam nesaf, sef mynd â'r corff a'r ffrâm newydd i weithdy Gaynor – GDH Leatherwork – yng Nghlunderwen.

Ar ôl imi ddod o hyd i gyflenwr croen ceffyl roedd yn rhaid penderfynu am ba hyd i socian y croen. Arferwn roi croen gafr ar ddrymiau pan oeddwn yn iau; byddwn yn socian y croen egr mewn bwcod dros nos. Felly roedd gen i beth profiad o weithio gyda chroen i'r. Arbrofodd Gaynor gyda chroen o wahanol drwch; ymchwiliodd i wahanol bwythau; ymestynnodd a mowldiodd y croen cyn ei socian mewn dŵr o wahanol dymheredd, ac yna ei roi o dan densiwn amrywiol. Ar gyfer y pwythau ar gefn y delyn defnyddiodd gyfuniad o bwyth ffagod (*flaggot stitch*) a phwyth rhedynen (*twisted herringbone stitch*).

Roedd y dewisiadau a'n hwynebai wrth gynllunio ac adeiladu'r delyn yn cael eu rheoli gan gyfyngiadau'r deunyddiau: roedd angen i hyd y tant hiraf, er enghraifft, fod o'r un hedi â'r gynffon ceffyl hiraf, os nad oeddem am eu gwau i wneud rhai hwy. Gwyddid yn iawn sut i wneud hyn ar un adeg, fel y sonnir yn y dyfyniad hwn o *Geiriadur Prifysgol Cymru*:

Gruffudd Evan o Nant Trystan yn Llanwynno, oedd delynior, ag yn byw yng nghylch 1730. Telyn rawn oedd ef bob amser yn ei chanu, ag efe a wyddai ffordd i nyddu rhawn yn dannau mawrin, at delyn o'r maint a fyddai. o nd y mae'r ffordd i wneuthur hynny wedi myned ar goll.

Wrth arbrofi gyda thannau rhawn, sylwais fod sain y delyn rawn yn drawiadol o debyg i sain telynau a geir hyd heddiw yn Nigeria, Chad, Camerŵn a Gweriniaeth Canolbarth Affrica, yn arbennig y delyn wyth tant Enanga o Weriniaeth Ddemocrataidd y Congo, ac mae gwneuthuriad y delyn rawn yn ymdebygu'n fawr i wneuthuriad rhai telynau bach Affricanaidd, y corff pren wedi'i gerfio a'i orchuddio â chroen anifail gyda sribed o bren o dan ganol y croen i ddal un ochr y tannau. Yr unig ahaniaeth amlwg yw bod y rhain wedi eu plygu fel bwa a bod gan y delyn rawn biler neu golofn.

Y cam nesaf fydd ychwanegu darnau pren – y gwrrachod (*bray*) – i'r delyn er mwyn datblygu'r sain. Mantais defnyddio gwrrachod yn ngwneuthuriad telynau yn ei chyfnod oedd caniatáu cynhyrchu sain gryfach, a hynny'n ychwanegu a chyfoethogi'r ystod mynegiant. Edrychaf ymlaen hefyd, maes o law, at ymchwilio i ddulliau tiwnio hanesyddol megis tiwnio pythagoreidd a thonyddiaeth gywir. Dyma heriau technegol newydd nid yn unig i'r crefftwr yn ein cyfnod ni, felly, ond hefyd i'r cerddor, a hynny'n gofyn am esblygu dulliau chwarae newydd.

Ond yr hyn sydd yn fy nghyffroi yn fwy na dim, yr hyn a wnaeth f'ysgogi i adeiladu telyn rawn yn y lle cyntaf, yw'r syniad o arbrofi a chwarae'n fyrfyfyr arni. Beth a ddigwyddith i gerddoriaeth gyfoes wrth iddi gael ei chanu ar delyn rawn? A fydd y profiad o chwarae'r offeryn hwn, o gocio'r sain crai ohoni, yn gadael ei ôl, ymhnen amser, ar ddatblygiad cerddoriaeth werin Gymreig? Tybed pa fath o 'ddysg', yn wir, y mae modd ei ddatblygu a'i rannu 'o rawn du' yn yr unfed ganrif ar hugain?

Enillodd **Rhodri Davies** un o wobrau Cymru Greadigol Cyngor Celfyddydau Cymru 2016/17 i greu telyn rawn.

ERTHYGLAU DIWEDDAR

CYFANSODDI

Pren ffeind a braf

DADANSODDI

Dyma sut yr oedd hi ...

CYFANSODDI

Y Masarn

DADANSODDI

Cofiw'n Epynt

Mererid Hopwood

‘Gwreiddiau’ oedd testun Coron yr Eisteddfod Genedlaethol 2003 ac mae'r gerdd hon, sydd yn gerdd gomisiwn Eisteddfod AmGen (lle mae gofyn i gyn enillwyr ymateb i'w cerddi gwreiddiol), yn dechrau gyda dyfyniad o'r hen gân werin 'Y Pren ar y Bryn'....

Ruth Richards

Wrth i bawb a phopeth gau i lawr yn gynharach eleni fe wnes adduned na fyddwn yn peri diflastod i neb drwy ysgrifennu'r un gair am y profiad. Ni fyddwn yn sôn am y pobi cyndeiriog na'r gwingo o weld pobl yn cofleidio ar raglenni a ffilmwyd cyn...

Gwilym Ceri Jones

Aeth dros y darren grinwedd Ddeg gaeaf er y tro Dan wybren ffrom yn Nhachwedd Y'u cerfiwyd ar fy ngho'; Pedair masarnen yn y deifwynt Yno'n eu plyg ar oled Epynt. I mi rhyw henwyr gwargrwm Ydoedd y masarn hyn, Ar eo'n hynt o'r cafngrwm ...

Mererid Hopwood

Ydy, mae 80 mlynedd yn amser hir; ac eto, mae o fewn cof y byw. Ac mae Gwyneth Williams yn gallu rholio'r degawdau yn ôl nes cyrraedd y cyfnod pan oedd hi'n cerdded bob bore gyda'i brodyr i Ysgol Cilieni, a hithau'r disgybl ieuengaf ar y gofrestr....

▲ Yn ôl i frig y tudalen

O glawr i glawr am £10 y flwyddyn yn unig

Tanysgrifio ►

DARLLEN, HOLI, HERIO

Dadansoddi	Colofnwyr	Prynu	Y Wasg	Map o'r wfan
Cyfansoddi	Podlediadau	Tanysgrifio	Hysbysebu	Preifatwydd
Cyfnewid	Rhifyn print	Cyfrannu	Llyfrwerthwyr	Brwsiwn
Adolygu	Cylchlythyr	Cefndir		
		Cysylltu		